# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 25/9/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29/9/2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 6/10/2025 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

---

**PWNC** – Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol tir ger Gloddfa Glai, Talysarn.

---

**PENDERFYNIAD**
I waredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli yn Gloddfa Glai, Talysarn.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfëwr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 25/09/2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. S. Row[illegible] |

**Pwnc :**

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol tir ger Gloddfa Glai, Talysarn.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I waredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn llain o dir sydd wedi'i leoli yn Gloddfa Glai, Talysarn.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i'r Aelod Cabinet gymeradwyo unrhyw drosglwyddiad uniongyrchol o eiddo sydd ddim ar y farchnad agored.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn 2020 cafodd y Cyngor wybod bod tirfeddiannwr cyfagos wedi llechfeddiannu tir yn Gloddfa Glai, Talysarn oedd yn eiddo i'r Cyngor. Yn ystod yr ymchwiliad, fe wnaeth y tirfeddiannwr cyfagos ymholiadau ynglŷn â phrynu'r tir a'u bwriad yw defnyddio'r tir fel gardd breifat.

Ystyriwyd y cais a nodwyd, er bod y tir wedi'i leoli mewn man sydd wedi'i dynodi fel tir cyhoeddus agored yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol, nid oes hawliau tramwy cyhoeddus yn gysylltiedig â'r tir, roedd y tir testun wedi ei ordyfu a dim mewn defnydd, nid oedd y tir yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ac nid oes ganddo bosibiliadau at ddibenion strategol neu adfywio / ailddatblygu yn y dyfodol.

O ganlyniad, mae'r gwerthiant arfaethedig yn bodloni polisi gwaredu eiddo'r Cyngor.

Fel rhan o'r trosglwyddiad, y bwriad yw cyfyngu ar ddefnydd o'r tir i ardd breifat yn unig ac y bydd y darpar brynwr yn atebol i gynnal a chadw'r terfyn yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd hysbysiad o'r gwerthiant arfaethedig yn unol ag Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gyda hysbysiad wedi'i osod mewn papur newydd lleol (ac ar-lein) a hysbysiadau wedi'u gosod ar y tir.

Mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd sicrhau pris gorau posibl am bob eiddo sy'n weddill i'w anghenion er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. At hyn, polisi Cyngor Gwynedd yw gwaredu ar y farchnad agored fel bod gan unrhyw un sydd â diddordeb gyfle i brynu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau posibl ac yn sicrhau tryloywder. Fodd bynnag, mae rhai eiddo na fyddent, oherwydd eu maint, eu natur a'u lleoliad o unrhyw ddefnydd i neb heblaw un darpar defnyddiwr yn unig. Mewn achosion o'r fath, argymhellir peidio â gwaredu'r eiddo ar y farchnad agored ond ei waredu'n breifat i'r unig ddefnyddiwr tebygol, lle ystyrir bod y tir o werth mwy i'r defnyddiwr hwnnw a'i fod yn cael ei adlewyrchu yn y pris prynu. Gofynnir am ganiatâd penodol i wneud hyn ym mhob achos.

Byddai cymeradwyo'r penderfyniad i werthu'n uniongyrchol i'r darpar brynwr yn golygu bod y Cyngor yn hepgor y costau sy'n gysylltiedig â chamau cyfreithiol mewn perthynas â'r llechfeddiant a hefyd y costau gyda chynnal y tir yn y tymor hir.

Nid oes unrhyw fwriad derbyn llai na gwerth y farchnad am y tir.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Hysbysiad cyhoeddus o dan Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972


Cyngor Cymuned Llanllyfni – "Yn dilyn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanllyfni ble trafodwyd ... y mater a daethpwyd i'r penderfyniad bod y Cyngor ddim yn gwrthwynebu y cais ond y buasent yn hoffi gweld amodau nad yw'r tir yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg at ddatblygiad i adeiladu tŷ ayyb."

Clwb Peldroed Talysarn Celts – "Dim gwrthwynebiad gan y clwb ir Cyngor werthu y tir dan sylw."

Aelod Lleol – Cynghorydd Peter Thomas – "Nid rwyf mewn unrhyw ffordd yn cymeradwyo y llechfeddiant gan y tirfeddiannwr" ond "byddai gwerthiant yn lleddfu'r atebolrwydd i gynnal a chadw y tir ac yn osgoi costau cyfreithiol i'r treth dalwyr."

Prif Swyddog Cyllid – "O ystyried y sefyllfa a ddisgrifir yn y dalen benderfyniad yma, nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol fel datrysiad i'r sefyllfa."

Swyddog Monitro – "Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir a fod y camau priodol wedi eu dilyn."




## Tir yn Gloddfa Glai, Talysarn